# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Neuadd y Sir Brynbuga NP15 1GA**
**Dydd Llun, 19eg Mehefin, 2023, 10.00 am**

| **Cynghorwyr yn Bresennol** | **Swyddogion yn Bresennol** |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Armand Watts (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sir: Jill Bond, Jan Butler, Steven Garratt, Meirion Howells, Penny Jones, Dale Rooke, Frances Taylor | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Sharran Lloyd, Rheolwr Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol<br>Beth Watkins, Flying Start Manager<br>Susan O'Brian, Early Years Integration And Transformation Lead<br>Christian Schmidt, Swyddog Cynllunio a Pholisi Trafnidiaeth<br>Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig |

**Ymddiheuriadau:** Dim

1. **Ethol Cadeirydd.**

   Y Cynghorydd Watts, a enwebwyd gan y Cynghorydd Rooke ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Bond.

2. **Penodi Is-gadeirydd.**

   Y Cynghorydd Jones, a enwebwyd gan y Cynghorydd Butler ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Rooke.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd datganiadau o fuddiant.

4. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Nid oedd fforwm agored.

5. **Cyflwyniad ynghylch Peilot Integreiddio a Thrawsnewid Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg: Adolygu effeithiolrwydd y peilot a'r goblygiadau ar gyfer Dechrau'n Deg (diweddariad llafar).**

   Rhoddodd Sue O'Brian a Beth Watkins ddiweddariad ac ateb cwestiynau aelodau.

   **Her:**

   **Pwyntiau allweddol a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor:**
   - Nodwyd y canfyddiad ymysg rhai mamau newydd nad oedd cefnogaeth ar gael iddynt.
   - Mynegwyd sioc nad oes rheolwr ymwelwyr iechyd yn gyfrifol am Dechrau'n Deg.

- Gofynnwyd pa gapasiti sydd ar gyfer cymryd mwy o achosion, a pham fod cofnodion papur yn dal i gael eu cadw
- Gofynnwyd beth fedrir ei wneud i helpu gwireddu'r weledigaeth ar gyfer cyffredinoliaeth gymesur
- Yng nghyswllt gweithwyr gofal iechyd heb fod ar gael yn rhwydd i deuluoedd ifanc, gofynnwyd os oes rhywbeth yn y cytundebau partneriaeth neu lefel gwasanaeth y dylid dal gweithwyr proffesiynol ato, ac os nad oes, os y gallai fod rhyw fath o gamau cyfreithiol
- Dywedwyd fod trothwyon i gael mynediad i Dechrau'n Deg yn swnio fel 'loteri cod post', ac y dylid eu newid i adlewyrchu'r cynnydd mewn amddifadedd oherwydd yr argyfwng costau byw, yn neilltuol i ddod â hwy i'r un sefyllfa a gweddill y Deyrnas Unedig

- Gofynwyd beth fedrid ei wneud i wella'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Cyngor Sir Fynwy a'r bwrdd iechyd
- Gofynnwyd os gellid newid y cynllun peilot os nad yw'n gweithio
- Eglurwyd y broses atgyfeirio a gofyn beth fydd yn digwydd i'r teuluoedd na chawsant eu cynnwys nad ydynt yn ardaloedd prif ffrwd Dechrau'n Deg
- Gofynnwyd os bydd y gostyngiad mewn cyllid o ddiwedd y proses beilot yn lliniaru yn erbyn pobl sy'n ei chyrchu yn seiliedig ar angen yn hytrach nag oherwydd eu bod yn y cod post perthnasol
- Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol pe byddai gan aelodau well ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y llwybr atgyfeirio at gyfer eu preswylwyr
- Gofynnwyd sut y gellir sicrhau cysondeb dull gweithredu gyda theuluoedd, heb ymwelwyr iechyd, a sut y gellir sicrhau nad oes unrhyw blant yn llithro drwy'r rhwyd
- Cael eglurdeb ar lle mae'r Ymwelwyr Iechyd yn seiliedig

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Cytunodd aelodau y byddwn yn gofyn i Brif Weithredwr a swyddogion y Bwrdd Iechyd ddod i gyfarfod. Byddwn yn hyrwyddo'r achos hwn a gofyn i Brif Weithredwr Cyngor Sir Fynwy ei godi yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

6. **<u>Ystyried adroddiad ar y problemau tymor byr a thymor hir gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yn Sir Fynwy (adroddiad i ddilyn).</u>**

Cyflwynodd Christian Schmidt a Debra Hill-Howells yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau.
.
**Her:**

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor:**
- Egluro dyddiadau a gwybodaeth yn yr adroddiad gan ofyn os oes gwybodaeth ddiweddarach mewn rhai achosion, tebyg i'r canran oedd yn teithio i'r gwaith mewn car yn 2012, ac os y gellir cymharu dyddiadau costau
- Nodi fod syniadau rhagorol tebyg i 3.22, a gofyn sut y caiff y dadansoddiad bwlch ei ddefnyddio yn y dyfodol a sut mae bysus Grassroots yn ffitio i'r cynllun
- Dweud fod defnydd yn annhebyg o gynyddu i'r lefelau cyn y pandemig gan nad yw pobl yn ymddiried yn y gwasanaeth ac nad yw'n gweddu patrymau gwaith pobl o ardaloedd gwledig sy'n teithio i'r gwaith, felly bydd y defnydd o geir yn parhau bob amser
- Dweud nad yw amserau bysus a threnau wedi cydlynu gyda Fforest y Ddena a Swydd Caerloyw, gan arwain at amserau aros hir, ac y dylai Sir Fynwy fod yn gweld budd enfawr fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ond nad yw'n gwneud hynny
- Gofyn os oes cwmpas o fewn cynlluniau'r dyfodol i gynnwys gwasanaeth cefnogi cludiant ar gyfer rhai sy'n teithio i'r gwaith ar shifftiau dros gyfnod 24 awr

- Nodi bod y data yn yr adroddiad yn hen e.e. cyfeiriad at gynnal astudiaeth gorsaf Magwyr yn 2015, a bod angen diweddaru'r holl ddarnau i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol
- Gofyn sut y byddwn yn rhoi pwysau ar Trafnidiaeth Cymru, Uned Cyflenwi Burns ac ati, pan ddaw i gynllunio gorsafoedd newydd, gan y bu ymgyrch am fwy na 10 mlynedd am orsaf rhodfa yn Mynegwyr, a mynegi siom am sut mae trafnidiaeth wedi llithro lawr agenda'r cyngor
- Nodi nad yw rhuban isaf y sir yn wledig, a bod angen rhoi ystyriaeth i hynny mewn materion trafnidiaeth
- Gofyn os gallia'r Aelod Cabinet egluro'r bwriadau ar gyfer y Grŵp Trafnidiaeth Strategol
- Wrth siarad ar y dirywiad amlwg mewn mynedfeydd ac allfannau gorsafoedd rheilffordd, fod angen annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ond cytuno bod hyder yn isel. Mae'n arbennig o bwysig fod pobl sy'n byw lle mae trenau e.e. y Fenni, yn dychwelyd iddynt a bod gwasanaethau bws i drenau yn hanfodol, ac felly hefyd gael y data gywir ar ddefnyddwyr
- Gofyn os oes rheswm da dros y gwahaniaeth amlwg mewn cost rhwng rheilffordd Sir Fynwy a rheilffordd y Cymoedd ac os ydym yn herio hynny
- Gofyn os, gyda gorsaf New Inn yn agor yn fuan, y bydd y bws rhif 63 yn stopio ym Mrynbuga ac os bu cynnydd mewn amserlenni yng nghyswllt Brynbuga a'r Fenni, gan gysylltu Brynbuga gyda bysus rhif 63 a 69 yn Rhaglan
- Gofyn os yr edrychir ar fynediad i Gyffordd Twnnel Hafren a gwelliannau cyfnewidfa yn cael eu hystyried fel rhan o Flaenoriaeth 1

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolchwyd i swyddogion. Dychwelir at hyn ym mis Hydref a gofynnir i'r Aelod Cabinet ddod i'r cyfarfod i ateb cwestiynau.

7. **<u>Blaenraglen Waith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus.</u>**

Caiff gweithdy ar Linellau Cyffuriau ei drefnu, cyn yr haf os oes modd, dan gadeiryddiaeth y Pwyllgor Pobl. Gwahoddir Christian Schmidt yn ôl i'r cyfarfod nesaf ym mis Hydref. Bydd swyddogion yn ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd i gytuno ar ddyddiad.

Strategaeth VAWDASV: gwahoddir swyddogion yn ôl yn yr hydref - maent angen amser i roi'r strategaeth ar waith fel y gallwn wedyn eu gwahodd i gyfrif ar eu perfformiad.

Diolchodd y Cynghorydd Bond i'r Arolygydd Williams am ddarparu gwybodaeth ar ôl y cyfarfod diwethaf ond nododd fod y pwyllgor hefyd wedi gofyn am gymarebau ar gyfer nodweddion gwarchodedig – **<u>GWEITHREDU.</u>**

8. **<u>Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet</u>**

Cynigiwyd bod anghydraddoldeb cod post ar gyfer gwasanaethau optegol yn bwnc ar gyfer y dyfodol, yn arbennig y gwahaniaeth mewn amserau agos am driniaeth frys os y cyfeirir i Gasnewydd neu dros y ffin. Cynigiwyd Gwasanaethau Deintyddol hefyd gyda'r prif ffocws ar bobl ifanc, ond gyda phosibilrwydd ehangu'r drafodaeth i bob oed.

Awgrymodd Hazel Ilett y gallai'r Bwrdd Iechyd roi sylw i'r pwnc hwn ar yr un pryd pan gânt eu gwahodd am Dechrau'n Deg.

9. **<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24ain Ebrill 2023.</u>**

Cadarnhawyd y cofnodion. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Butler ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jones.

Nododd y Cynghorydd Jones nad oedd ei henw wrth ochr 'Is Gadeirydd' yn y rhestr presenoldeb.

**10. <u>Cyfarfod Nesaf: Dydd Llun 23ain Hydref 2023 am 10.00am.</u>**

Ceisir cyfarfod cyn hynny, yn dibynnu ar argaeledd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.